WG35-5-132.

# AWDL MARWNAD,

## ER COFFADWRIAETH

From W. Jones — AM Y DIWEDDAR — to Rd. Jones

# JOSHUA MORGAN, YSW.

"RHIFYDDEGWR EGWAN."

CEFNOGYDD ENWOG I LENYDDIAETH GYMREIG YN EI HOLL RANAU, AC UN O'R GWLADGARWYR ENWOCAF A FAGODD GWENT.

---

**GAN BENJAMIN BOWEN,**

*BRIWNANT.*

---

BU FARW YN LLANELLI, BRYCHEINIOG, RHAGFYR 25ain, 1829, YN 58 OED.

---

*Yr Awdl hon a deilyngodd y Tlws ar y Testyn uchod yn Eisteddfod y Fenni, a gynnaliwyd y 25ain a 26ain o Dachwedd, 1835.*

---

CRUGHYWEL:
Argraffwyd, Cyhoeddwyd, ac ar werth, gan Thomas Williams.

1836.

X205312O2X

15177

# AWDL MARWNAD.

---

O, Frycheiniog! afar a chwynion—sydd
Yn soddi dy galon,
A nych nodawl och'neidion,—
Gwreiddiau briw mewn grudd a bron!

Bu farw cawr glewfawr, glowyfoes,—Cymro llwyd *
A fwriwyd o'i fer-oes;
Aeth i'w fedd, er mawredd moes,
Dirwynodd Duw yr einioes.

*Josua Morgan* iesin,
Hoyw-wych lew, o uchel lin,
A fwriwyd, yn ei fawredd,
O ladau byd i ludw bedd.

Ing-lwyth angau adwythig—a welir
Trwy *Walia* gauadfrig;
Trodd i'r bedd, o wedd y wig,
Yn chwilfriw, bren uchelfrig.

Rhifyddwr i'w ryfeddu—a reswyd
Gyda'r isel deulu;
O doi îs âr y câr cu,
Go lwyr yw y galaru.

Meib y gân, cydgwynfanwch—a'm henaid,
Y'mhoenau fy nhristwch;
Garw wbain, ac oer ebwch,
Wyf o hyd, mewn trist-fyd trwch.

Colli ein Noddwr callwych,
Poen yw i ni—pwn o nych;
Gŵr goleuwych, ceinwych, call,
Diwyd y'meusydd deall;
Mab y llwydd fu y'mhob llên,
Mab hewyd, a mab awen;
Er maint ei bwyll, ddidwyll ddyn,
Boreufwyd yw i bryfyn!
Gwedd ei haulwen a lenwyd,
A'i ynni llawn, â niwl llwyd.

Cloedig yw Cwm Clydach—dan niwl,
Du nos a ddaeth haiach,

---

* Venerable.

E ballodd cysur bellach,—
Ow! oer yw byd mawr a bach!

Tow'd, â llen, hoywben hybwyll,—iach rinfawr,
A chronfa oleubwyll,
O dadol ynni didwyll,
A gwawl pur fu'n gloywi pwyll.

Wb! galaeth benbwygilydd,—yn hollawl,
Yw Llanelli eilfydd,
Am guro ei magwyrydd
I wael fan—wylo a fydd.

Elusenwr o lwys anian,
O'i gôd, ŵr gwiw, rhoes gêd i'r gwan.

Iaith ei anian f'ai porthi newynog,
(Nid oer annghynes dwrdio'r anghenog,)
Ond rhagori o galon drugarog;
I'r dyeithrawl bu dadawl odidog,
Ei orchwyl oedd gweini'n serchog,—o deimlad,
I gwyn ymddifad gwan ymoddefog.

Cyfaill twymgar, amyneddgar, a mwyneiddgu,
I'r trallodus, o dda 'wyllus i'w ddiwallu.

Oerion awelon marwolaeth,—a'u naws,
Sy'n ysu dynoliaeth;
O'r olwg! mae chwerw alaeth,
Cloi rhinwedd mewn culfedd caeth.

Er meddu anrhydedd mawr, a moddion,
Er cael myg-barch, a chyfarch uwchafion,
Er gwiw folliad gan amryw gyfeillion,
Er gwraig fad, f'ai'n siarad pob cysuron,
Y gŵr llwyd rwygwyd i'r eigion—am byth,
Ond tragyfyth i'r byd try ei gofion.

E gadd y Cymreigyddion—oer golled,
Argyllaeth hyd galon,
O rwygaw i âr eigion,
Y caerau llaith, eu câr llon.

Meddai gariad, bwriad ban,
A hyf ynni nwyf anian,
I barchu têr arferion
Ei hen wlad, lwysfad lon:
Puraw, muriaw'r Omeriaith,
Lwys wych, oedd ei felus waith;

Ein " Hifor Hael" hoywfawr oedd,
A thra-dewr ei weithredoedd,
Heb falchder ofer, afiach,
I frwynaw aidd ei fron iach.

Bu *Morgan* i Gymru'n gâr
Hoywgu, a noddwr hygar,
Pan oedd gwyll tew, rhew, a rhwd,
Yn camu dros bob cwmwd,
A rhagfarn yn gwasarnu
Aelwyd gain ei hen wlad gu,
Y'mhob rhith, a meib yr hedd
Yn gwelwi mewn hygoeledd;
Llewych oedd i'r burwych bau
Ei thesog Gymdeithasau
Cymroaidd, caent hafaidd hin
O'i ffriw-dwrdd annghyffredin.

Trwy'i oes enwog cefnogydd,
Hylawn o rym, i lên rydd;
" Seren Gomer," wawl-ber wedd,
Hwyliai o galon haelwedd,
Fal hybwyll a didwyll dŵr,
Ei dwys borth a'i dosbarthwr,
O eigion mynwes, llesu
Yn ddiofn y golofn gu,
A gwiwrwydd dân gwladgarwch
I'w fron bob cam, yn fflam fflwch;
Dwyn ei ran wnai â dawn rhydd,
Fal hybarch fêl ohebydd,
Wr dewrfad, hyd oer derfyn,
Ei 'wyllys da oedd lles dyn.

Rhoi cynghorion, geiriau mwysion,
I'w gyd-ddynion o'i gêd ddawnus,
Wnelai'n ffyddlon, heb ddichellion,—
I'w ddêr âlon oedd arialus.

Lle b'ai du-far, ofid afar,
Cymwynasgar camai'n esgud,
A gwên hawddgar, elusengar,
(Wr îs ammhar) er ei symud.

Dolurus gydalaru—yr ydym,
A rhodio'n ddiallu;
Gwyneb nid oes yn gwenu,—
Rhow'd ein hedd i'r dyfnfedd dû.

Adenydd o brudd dunos—yw 'nghronglwyd,
Difwynwyd fy einio's;
Ebychu, nid heb achos,
Wyf dan oerddwl nifwl nos.

Nos gaeth anwybodaeth byw,
Heb ei wên addien heddyw,
Oer boeni ar obenydd,
O achos cau dorau dydd.
Beth a ddaw o'r fyg awen?
Darfu hyder lleufer llên!
Aeth cyfaill ein hiaith, cofir,
O'r byd hwn i'r bywyd hir;

Ni cheir porth na chynnorthwy
O ran y mâd wron mwy;
Ni rana ef un rhinwedd
I glyw byd o glai y bedd.

Un hoenus oedd mewn hanesyddiaeth,
Bêr ddawnus, ac arawd barddoniaeth;
Hoffai dreiddiaw, nofiaw hynafiaeth,
Wybrenol, a bydol wybodaeth,
A llawn noddi llenyddiaeth—o egni,
Oer ei golli, a dû argyllaeth.

Er rhodiaw mewn anrhydedd,—heb osgo,
A morio mewn mawredd,
Awn rhyw lun, trwy anhunedd.
Yn y fan i fudan fedd.

O sawd angau nid oes diengyd,—pan ddel
Ei argel drwm ergyd;
Wrth arch Rhên try, mewn enyd,
Yr holl fyw i arall fyd.

Eu saethau 'heda'n sythion,
Heb wyro, nes briwio bron;
Ei fâr erch, didrugaredd,
Dery bawb i dir y bedd;
I'r llawr try'r cawr a'r corach,
O nawd fyw, mewn enyd fach;
Taeogion a beilchion byd,
A'r annifyr fron hefyd,
A esyd angau'n isel,
Un-wedd yn y ceufedd cêl;
Taro wna fe tua'r un fan,
Ni edrych ar un oedran;

Y ddirfwyn oes a dderfydd,
Fel gwyn flodeuyn un dydd.

Dyn ar ffysg sydd fel cysgod,—neu niwlen
Anolo'r nant isod,
Ei dwrf ar fyr sy'n darfod,
Er hedd clau, er haeddu clod.

Gŵr haeddgar, o ddengar ddawn,
Hyawdlaidd a bywydlawn,
A dorai'r angau dewrwedd
I oer glai, â'i anwar gledd.

Fe ddygodd y "Rhifyddegwr—Egwan,"
Ar ogwydd i'r pentwr,
Wele ddysg a wyla ddŵr,
O gladdu ei ymgeleddwr.

Galaeth uchel ac wylo,
Ias oer frwyn, a ysa'r fro;
Mae gawr cwyn am y gŵr cu,
O lwyrwedd, a galaru.
E gafas gan Ner gyfoeth,
I Dduw benthycai yn ddoeth;
Hir hiliaw a fu'r haelwas,
Er cynnydd i grefydd gras;
Rhuddaur a fyddai rhoddion
Y gŵr llwys i Eglwys Ion;
Ei nodau o'ent ganeidwedd,
Hynod a ban hyd y bedd.

Byw'n ddichlyn, a dilyn duwioledd,
Wnai y gŵr da, o gywir duedd;
Ei fwyn lef oedd tangnefedd,—clodfori
Ei Ri, a gwâr hoeni gwir rinwedd.

Treuliodd ei oes yn foesol,—hyd olaith,
A'i deulu oedd rasol;
Dyn i Dduw yn dwyn y ddôl,
Yn addwyn a rhinweddol.

Hoffeiddlwys briod ffyddlon,—a hyfwyn
I'w Efa gariadlon;
Ymgeledd fu, twymgalon,
A gwir fraint idd ei gwâr fron.

Y gŵr fflwch sy'n llwch y llawr,
Darfu ei gariad dirfawr;

Haul addysg oedd, ŵr gloyw-ddawn,
Tŵr ei blant, a'u llwyddiant llawn,
Heb nwyd giaidd, ffiaidd, ffol,
Neu faswedd gwag anfoesol:
Yn ddwysgall mynodd ddysgu
Ei anwyliaid canaid cu,
I ddal, a chywir ddilyn,
Archau Duw, a pharchu dyn.

Dan y gwys mae'n gorphwyso
Bibell aur ei babell o.

Hyderaf, er ei dori—o dan nen,
Ei fod e'n gwir fedi
O rad hedd ei ryfedd Ri,
Gwyl enaid, mewn goleuni.

Er marw corph y gŵr mirain,
A'i gloi mwy tan glai a main,
Y'mrawd-ddydd Barnydd y byd
Egora gloion gweryd;
Cyfyd, ar ffysg, o'r ceufedd,
Yn wyn ac eirian ei wedd,
Y wreichionen ysplenydd
Mewn cell lân yn fuan fydd,
Neu ddalfan tragwyddolfyd,
I ail fyw mewn nefawl fyd.

Wr anwyl, ofer wylo,
Ein och-lef fawr ni chlyw fo;
Awn ninau oll, mewn enyd,
Ar ei ol i farwol fyd;
Dywenydd beunydd yw bod,
Hwyr a bore, yn barod.

Dad goleulwys! dod y gloywlon
Wir fendithion ar fwyn deithiad;
Geiriau tra-dwys y gwir try-don
O'r gofidion rhy' gyfodiad.

Byw yn ffyddlon i'th orch'mynion,
Try yn goron, trwy iawn gariad;
Ti yw ffynon pob cysuron,
Da i ddynion, a'u diddaniad.

Iesu mad! pob tremiad trwch
A hoeddir yn dy heddwch.

Cynfelyn.

---

T. Williams, Argraffydd, Crughywel.